# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2015-2016

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2016.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Sybil Crouch | Adran Etholiadol: | Y Castell |
|---|---|---|---|

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Rwyf wedi cymryd diddordeb brwd mewn materion cynllunio sy'n ymwneud â'm ward ac rwyf wedi bod yn rhan o gefnogi preswylwyr sy'n gwrthwynebu ceisiadau cynllunio a fyddai'n cael effaith negyddol ar eu hamgylchedd, er enghraifft, y datblygiad iard gychod arfaethedig yn y Marina.

Euthum i gymorthfeydd cynghorwyr ward a gynhaliwyd ar fore Sadwrn yn Nhŷ Caerloyw a Chanolfan Gymunedol Dyfaty. Mae'r rhain yn rhoi cyfleoedd i breswylwyr godi materion ac i ni fwrw ymlaen â materion ar eu rhan. Ar ben hynny, euthum i gyfarfodydd preswylwyr a'r Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd (PACT) ym Mrynmelin/Waun Wen, Mount Pleasant, y Marina a Sandfields.

Ymatebais i nifer mawr o faterion preswylwyr ac ymdrin â hwy, gan gynnwys cwynion am wastraff, parcio, glanhau strydoedd, ymddygiad gwrthgymdeithasol, trafnidiaeth, traffig, priffyrdd etc.

Roeddwn, ac rwy'n parhau i fod, yn llywodraethwr yn Ysgol Heol Teras.

Euthum i gyfarfodydd y Swyddfa Dai Ranbarthol i glywed am faterion a chyfarfodydd tenantiaid o ran Ardal Adnewyddu Tai Sandfields.

Parheais i ymddiddori'n fawr ym mhrosiect Gardd Gymunedol Llysiau'r Vetch sy'n dod â phobl o gefndiroedd gwahanol ynghyd yn Sandfields.

Euthum i gyfarfodydd Cymunedau'n Gyntaf – gyda Ward y Castell mewn 2 ardal glwstwr (De – Sandfields a Gogledd-orllewin – Waun Wen/Brynmelin).

Rwyf wedi cyfarfod â'r heddlu a PCSOs (Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu) i drafod materion trwyddedu, camddefnyddio sylweddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

Isod dangosir % presenoldeb seiliedig ar aelodaeth pwyllgor:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Y Cyngor | 10 | / | 18 | 56 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar yr Economi a Buddsoddi | 3 | / | 4 | 75 | % |
| Pwyllgor y Rhaglen Graffu | 14 | / | 15 | 93 | % |
| Fforwm Cyswllt Myfyrwyr Abertawe | 2 | / | 3 | 67 | % |
| Fforwm Cyswllt Myfyrwyr Abertawe - Partneriaeth Preswylwyr | 0 | / | 1 | 0 | % |
| **CYFFREDINOL** | **29** | **/** | **41** | 71 | **%** |

# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2015-2016

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfarfodydd Craffu** | | | | | |
| Gweithgor Craffu Cynaladwyedd | 1 | / | 1 | 100 | % |
| Gweithgor Craffu Trechu Tlodi | 1 | / | 1 | 100 | % |
| **CYFFREDINOL** | **2** | **/** | **2** | **100** | **%** |

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd

Fi oedd cynullydd y Gweithgor Craffu Trechu Tlodi.

## Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig

Fel cynghorydd ward, a chyda chydweithwyr ward, rwy'n cefnogi grŵp Cyfeillion Parc Bryn y Don i drawsnewid ychydig o lawnt yn ôl yn barc. Roeddwn yn parhau i bwyso am welliannau mewn mannau gwyrdd i breswylwyr canol y ddinas a man hamdden yn benodol – Fields in Trust (FIT).

Gwneuthum sylwadau i'r Pwyllgor Cynllunio ynghylch yr CDLl drafft a chyflwyno achos i Gae'r Vetch ac ardal fach yn y Marina gael eu cadw fel man gwyrdd mawr ei angen. Yn anffodus, nid oedd hyn yn llwyddiannus a chynhwyswyd y ddau safle yn y safleoedd a ddyrannwyd ar gyfer tai. Mae Cau'r Vetch yn benodol yn gyfleuster chwarae a hamdden poblogaidd iawn yng nghanol y ddinas, yn ogystal â bod o arwyddocâd hanesyddol a diwylliannol. Byddaf yn parhau i gefnogi preswylwyr lleol yn yr ymgyrch i ddychwelyd Cau'r Vetch fel Parc y Bobl.

Rwyf wrth fy modd bod y gwaith sylweddol a wneuthum fel Aelod y Cabinet ynghylch HMO wedi helpu i newid polisi Llywodraeth Cymru gyda chyflwyno newidiadau i'r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd. Mae hyn yn dod â mwy o HMO i'r gyfundrefn gynllunio a fydd, yn ei dro, yn rhoi'r cyfle i aelodau etholedig reoli'r twf mewn ardaloedd lle mae llawer o eiddo HMO.

## Adran 5: Dysgu a datblygu

Euthum i'r sesiynau hyfforddi canlynol:

09/12/2015 - Cyfrifoldeb Aelodau i Gymunedau Sipsiwn a Theithwyr dan y deddfau tai a chydraddoldeb newydd
05/11/2015 - Cyflwyniad i Gynnwys y Gymuned

## Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill

-

## Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr

Cyflog Sylfaenol: £13,300
Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**: | 16.06.2016 |